

Mae'r dirwedd wirfoddoli wedi newid, ac mae'r Strategaeth yn cydnabod bod:

- Dirywiad mewn gwirfoddoli ymhlith oedolion hŷn a photensial ar gyfer mwy o gyfranogiad ymhlith pobl iau.
- Galw am wirfoddoli hyblyg, tymor byr a gwirfoddoli seiliedig ar sgiliau.
- Angen i sefydliadau addasu trwy gynnig cyfleoedd amrywiol a chynhwysol.

Yn unol â hynny, bydd y Strategaeth yn canolbwyntio ar nifer o feysydd allweddol, gan gynnwys:

Gwirfoddoli â Chymorth Cyflogwr (ESV)
– annog busnesau, a'u staff, i gymryd rhan mewn gwirfoddoli.

Gwirfoddoli Digidol ac o Bell
– ehangu cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu ar-lein.

Microwirfoddoli
– cyfleoedd hyblyg tymor byr.

Gwirfoddoli Ieuencid a Theuluoedd
– ennyn diddordeb cenedlaethau iau a theuluoedd.

Gwirfoddoli Awyr Agored ac Amgylcheddol
– cefnogi ymdrechion cadwraeth a lles trwy rolau sy'n seiliedig ar natur.

Bydd fframwaith yn olrhain cynnydd ac yn hyrwyddo effaith gwirfoddoli, a dysgu a rennir yn eang. Bydd y Strategaeth yn addasu i anghenion sy'n dod i'r amlwg wrth sicrhau bod gwirfoddoli yn parhau i fod yn brofiad bywiog, hygyrch a gwerth chweil i bawb.

Sganiwch y cod QR i weld y strategaeth lawn
Neu ymweld - www.pavs.org.uk

☎ 01437 769422 ✉ volunteering@pavs.org.uk

f [PAVS.Volunteering.Pembrokeshire](https://www.facebook.com/PAVS.Volunteering.Pembrokeshire)



Gwirfoddoli dros
Sir Benfro
Volunteering for
Pembrokeshire



Dylunio Graffeg gan Lisadevonald.co.uk



Crynodeb Gweithredol



Ydych chi'n wirfoddolwr?

Ydych chi am fod yn wirfoddolwr?

Ydych chi am ddechrau cynnwys gwirfoddolwyr?

Ydych chi'n dibynnu ar wirfoddolwyr?

Ydych chi'n cefnogi gwirfoddolwyr?



Os felly, mae'r Strategaeth hon ar eich cyfer chi.

Mae gwirfoddoli yn chwarae rhan hanfodol yn Sir Benfro, gan gryfhau cymunedau, meithrin gwydnwch, a gwella lles cymdeithasol.

Nod y Strategaeth Gwirfoddoli hon (2025-2030) yw cefnogi ac ysbrydoli unigolion, sefydliadau a busnesau i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddoli ystyrlon sydd o fudd i wirfoddolwyr, yr ecosystem wirfoddoli a'r gymuned ehangach.

Mae'r Strategaeth yn rhagweld Sir Benfro lle mae pawb yn cael eu hysbrydoli a'u cefnogi i wirfoddoli eu hamser a'u sgiliau. Er mwyn cyflawni hyn, mae wyth amcan strategol:

1



Ysbryd Cymunedol

Cryfhau ymgysylltiad lleol trwy fentrau dan arweiniad gwirfoddolwyr.

5



Lledaenu'r Neges

Gwella cyfathrebu ac ymwybyddiaeth.

2



Gweithio Gyda'n Gilydd

Annog cydweithio ar draws sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.

6



Gwneud iddo Ddigwydd

Cynyddu adnoddau a chapasiti.

3



Gwirfoddoli i Bawb

Sicrhau cynhwysiant a hygyrchedd.

7



Ei Wneud yn Well

Darparu hyfforddiant a dysgu parhaus.

4



Codi'r Safon

Gwella rheolaeth a hyfforddiant gwirfoddolwyr.

8



Gwybod eich bod yn Cyfrif

Cydnabod a dathlu cyfraniadau gwirfoddolwyr.

Mae hon yn alwad i weithredu fel bod gwirfoddolwyr, sefydliadau a busnesau yn dod at ei gilydd, cryfhau cymunedau, a chreu effaith barhaol yn Sir Benfro.

Rydym yn gobeithio y byddwch chi'n ymuno â ni!

